GIG CYMRU NHS WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan
University Health Board

## 2023/24

# Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol



# Cynnwys


01 **Ein Bwrdd Iechyd**
Gwasanaeth a'r Boblogaeth Leol

02 **Ein Gofynion Cyfrieithiol**
Deddf Cydraddoldeb (2010)

03 **Ein Hymrwymiad**
Cynllun Cydraddoldeb Strategol 2024 - 2028

04 **Ein Gweithlu mewn Rhifau**
Data Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

06 **Prif Lwyddiannau**
Cynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb

14 **Sbotolau ar...**
Tynnu Sylw at Arfer Gorau

19 **Casgliad ac Edrych Tua'r Dyfodol**
Crynodeb a'r Camau Nesaf

20 **Diolchiadau**
Diolch i gyfranwyr

# Rhagair

Mae'n bleser gennyf gymeradwyo cyhoeddi Adroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2023-24 Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, sy'n crynhoi sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi perfformio o ran cyflawni ei ddyletswyddau cyfreithiol fel y nodir yn Neddf Cydraddoldeb (2010) a Deddf Hawliau Dynol (1998).

Drwy gydweithio â'n partneriaid, mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo i sicrhau canlyniadau iechyd gwell i'n cymunedau difreintiedig, cynyddu amrywiaeth ein gweithlu, a gwella eu profiadau yn y gweithle drwy sicrhau bod pobl wrth wraidd popeth a wnawn.

Mae aelodau ein Bwrdd wedi ymrwymo i greu amgylchedd cynhwysol ar gyfer eu gweithlu ac maent yn cymryd rhan frwd mewn hyfforddiant a mentrau Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant er mwyn arwain yr agenda gymhleth a heriol hon yn hyderus. Mae aelodau unigol o'r Bwrdd hefyd wedi ymrwymo i hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â hyrwyddo a noddi ein rhwydweithiau staff.

Gobeithiaf y byddwch yn mwynhau darllen am y cynnydd yr ydym wedi'i wneud yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, ac wrth inni adolygu ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar gyfer y 4 blynedd nesaf, fe'ch gwahoddaf i gysylltu os oes gennych unrhyw sylwadau ar sut y gallwn barhau i wella.



**Nicola Prygodzicz**

Prif Swyddog Gweithredol

# Our Health Board

Sefydlwyd Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan ym mis Hydref 2009 a chyrhaeddodd statws 'Prifysgol' ym mis Rhagfyr 2013. Prif rôl y Bwrdd Iechyd yw sicrhau bod ein system GIG leol yn cael ei chynllunio a'i chyflwyno'n effeithiol, o fewn fframwaith llywodraethu cadarn, i gyflawni'r safonau uchaf o ran diogelwch cleifion a darparu gwasanaethau cyhoeddus, gwella iechyd a lleihau anghydraddoldebau a chyflawni'r canlyniadau gorau posibl i'n dinasyddion, ac mewn modd sy'n hyrwyddo hawliau dynol. Er mwyn cyflawni'r rôl hon, mae'n ofynnol i ni weithio gyda'n partneriaid a'n rhanddeiliaid er budd gorau'r boblogaeth rydym yn ei gwasanaethu. Fel Bwrdd Iechyd, rydym yn gwasanaethu poblogaeth Gwent sy'n adlewyrchu'r pum ardal awdurdod lleol: Blaenau Gwent, Caerffili, Sir Fynwy, Casnewydd a Thorfaen. Mae demograffeg Gwent yn amrywiol ac yn cynnwys ardaloedd cefn gwlad gwledig, canolfannau trefol a'r mwyaf dwyreiniol o gymoedd De Cymru.



# Ein Gofynion Cyfreithiol

Mae’r Deddf Cydraddoldeb (2010) yn darparu fframwaith gyfreithiol i amddiffyn hawliau unigolion a hyrwyddo cyfle cyfartal i bawb.

Mae’n rhoi cyfraith gwahaniaethu i Brydain sy’n amddiffyn unigolion rhag triniaeth annheg ac mae’n hybu cymdeithas deg a mwy cyfartal.
Mae adran 149 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud yn ofynnol i ni ddangos cydymffurfiaeth â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n gosod dyletswydd statudol ar y Bwrdd Iechyd i:

- Ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu, ac erledigaeth.
- Creu mwy o gydraddoldeb o ran cyfleoedd rhwng y personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.
- Meithrin cysylltiadau da rhwng y rhai sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a'r rhai nad ydynt.

Mae gan ein Bwrdd Iechyd hefyd ddyletswydd benodol o dan y Ddyletswydd i gyhoeddi gwybodaeth i ddangos cydymffurfiaeth â’r Dyletswyddau Cydraddoldeb, o leiaf unwaith y flwyddyn a gosod amcanion cydraddoldeb, o leiaf bob 4 blynedd.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn diogelu pobl sydd â nodweddion gwarchodedig. Sef:

- Anabledd
- Hil
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Rhywioldeb
- Ailbennu rhywedd
- Oed
- Rhyw
- Crefydd a chred
- Priodas a Phartneriaeth Sifil

# Ein Hymrwymiad



Cafodd Cynllun Cydraddoldeb Strategol cyfredol y Bwrdd Iechyd (SEP), ei adolygu a'i gyhoeddi ym mis Mawrth 2020, o dan Ddyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus sy'n cefnogi'r Ddeddf Cydraddoldeb (2010).

Gan gydnabod bod hyrwyddo cydraddoldeb a hawliau dynol yn allweddol o ran sicrhau'r cyfleoedd bywyd a'r canlyniadau iechyd gorau posibl i'r bobl yr ydym yn eu gwasanaethu, mae'r SEP wedi ymrwymo i gefnogi ymagwedd sy'n seiliedig ar hawliau dynol o ran y ffordd yr ydym yn gweithio, gan wneud egwyddorion a safonau hawliau dynol yn real yn ymarferol.

Ein Hamcanion Cydraddoldeb Strategol ar gyfer 2020 - 2024 yw:

1. Gweithio mewn partneriaeth i leihau pob math o drosedd casineb.
2. Gweithio mewn partneriaeth i leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig, trais ar sail 'anrhydedd' a cham-drin pobl hŷn.
3. Gweithio mewn partneriaeth â gofalwyr i barhau i godi ymwybyddiaeth o ofalwyr, darparu gwybodaeth, a gwella'r cymorth ymarferol sydd ar gael iddynt.
4. Gwella lles ac ymgysylltiad ein staff.
5. Gwella profiad cleifion drwy sicrhau bod gwasanaethau'n sensitif i anghenion pawb a blaenoriaethu meysydd lle mae tystiolaeth yn dangos bod nifer y bobl sy'n manteisio ar wasanaethau yn is neu lle mae canlyniadau'n waeth.
6. Gwella mynediad, profiad a chanlyniadau'r rhai sydd angen gwasanaethau Iechyd Meddwl ac Anabledd Dysgu.
7. Gwella profiad defnyddwyr gwasanaethau a staff lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol (LHDT).
8. Rhywedd a Thâl – Datblygu dealltwriaeth lawnach o'r rhesymau dros unrhyw wahaniaethau o ran cyflog a chymryd y camau angenrheidiol i fynd i'r afael â hyn.

# Ein Gweithlu menw Rhifau

Mae deall cyfansoddiad ein gweithlu'n ofyniad yn ogystal ag arfer da ac mae'n ein galluogi i fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â thangynrychiolaeth ac yn sicrhau fod anghenion yn cael eu diwallu. Y tu ôl i bob rhif ac ystadegyn, mae person, ac mae eu stori'n bwysig. Mae'r holl ffigurau a gyflwynir yma yn seiliedig ar ddata sydd wedi'i dynnu o systemau cyflogres ESR (Cofnod Staff Electronig) y GIG ar ddyddiad y ciplun diweddaraf (31 Mawrth 2023). Mae'r data'n ymwneud â staff y Bwrdd Iechyd a gyflogir ar delerau ac amodau Agenda ar gyfer Newid yn unig.

**82%**

**o'r gweithlu'n fenywod**

Mae ein gweithlu yn fenywod yn bennaf (dros 80%), ac mae hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa yn y mwyafrif o Fyrddau Iechyd y GIG yng Nghymru.

Mae dadansoddiad rhyw yn ôl nifer yn cyfateb i Fenywod – 12189 a Gwryw – 2753, y cyfanswm yw 14,942.

Mae casglu data yn parhau i wella gan mai dim ond 28.82% o'r data sy'n Amhenodol. Mae'r data sydd wedi ei gasglu ar anabledd wedi gwella o 22.18% o fis Mawrth 2018. Yn 2018 dim ond 49% o staff oedd wedi cwblhau'r wybodaeth hon o gymharu â 71.18% ym mis Mawrth 2023.

**3%**

yn nodi bod ganddynt anabledd

**36%**

o'n gweithlu'n dros 50 oed

Mae 36% o'n gweithlu dros 50 oed. Mae gweithwyr 71 oed a hŷn wedi cynyddu eleni o 70 i 74 person.
Mae 16% o'n gweithlu o dan 30 oed.

Dywedodd dros 77% o weithwyr eu bod yn Wyn. Nid yw 15% wedi adrodd beth yw eu hethnigrwydd.
O fewn cronfa ddata ein gweithlu, mae gennym 44 o Darddiadau Ethnig gwahanol wedi'u nodi sy'n dadansoddi ethnigrwydd ymhellach.

**8%**

o'n gweithlu yn nodi eu bod yn Ddu, Asiaidd a Lleiafrrifoedd Ethnig

**37%**

**o'n gweithlu wedi nodi eu bod yn Gristnogion**

Mae 16% o'n gweithlu yn nodi eu bod yn Anffyddwyr, 2% yn Fwslimaidd ac 1% yn Hindŵ.
Mae 10% o'r gweithlu wedi datgan nad ydynt am ddatgelu eu crefydd/cred ac mae 23.93% arall nad ydynt wedi nodi eu crefydd/cred.

Nid yw 24% o'r gweithlu wedi datgelu eu cyfeiriadedd rhywiol ac mae 2.64% wedi nodi eu bod yn gwrthod darparu'r wybodaeth.
Mae dros 70% o'r gweithlu wedi nodi eu bod yn heterorywiol/ syth.

**3%**

**o'n gweithlu yn nodi eu bod yn LHD+**

*Sylwch, mae rhai unigolion yn teimlo nad yw'r eitemau data a gwerthoedd ar ESR sy'n ymwneud â nodweddion gwarchodedig penodol yn diwallu eu hanghenion. At hyn, mae'n bosib y bydd y gyfran o gelloedd gwag, neu'r gyfran o ddewisiadau megis 'nid wyf yn dymuno datgelu' yn cael effaith negyddol ar setiau data.*

# Monitro Ein Cynnydd

Mae'r Prif Swyddog Gweithredol, ynghyd â'n Bwrdd, yn gyfrifol am sicrhau ein bod yn cyflawni ein dyletswyddau cyfreithiol. Adroddir ar gynnydd yn erbyn ein Hamcanion Cydraddoldeb i'n Pwyllgor Pobl a Diwylliant.

Mae ein Grwpiau Cynghori ar Hil a LHDTC+ a chwe Rhwydwaith Amrywiaeth Staff –Carers@ABUHB, Enable@ABUHB, Menopause@ABUHB, Neurodiversity@ABUHB, Pride@ABUHB, Voices@ABUHB– hefyd yn chwarae rhan hanfodol wrth adolygu a siapio ein gwaith wrth symud ymlaen.

# Ein Llwyddiannau

Mae'r adran hon o'n hadroddiad yn amlinellu ein cynnydd ym mlwyddyn olaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol, Ebrill 2023 - Mawrth 2024. Yn ystod y cyfnod adrodd, cyrhaeddodd y Bwrdd Iechyd nifer o gerrig milltir o ran cefnogi ein Hamcanion Cydraddoldeb:



- Rydym wedi parhau i ddiwallu anghenion cyfathrebu cleifion. Mae gan staff fynediad at ystod o wasanaethau cyfieithu. Darperir y rhain gan Language Line, Big Word, Sign Live a Gwasanaeth Dehongli a Chyfieithu Cymru (WITS). Mae'r gwasanaethau hyn ar gael 24 awr, 365 diwrnod y flwyddyn ac yn cynnwys Ffôn ac wyneb yn wyneb; dehongli ar gyfer pobl Fyddar neu bobl â nam ar eu clyw; a gwasanaethau cyfieithu dogfennau. Ar gyfer y flwyddyn 2023 hyd yma, dehongliad BSL oedd â'r gyfradd uchaf o ran dehongli (24%), ac yna Arabeg, Bengaleg, Pwyleg a Rwmaneg.

- Fe wnaethom barhau i gynyddu ein cyfathrebiadau sector-benodol ar gydraddoldeb (trwy gylchlythyrau a thudalennau cydraddoldeb wedi'u hadolygu ar y fewnrwyd staff) er mwyn hyrwyddo mwy o ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac er mwyn rhannu mwy o enghreifftiau o arferion cydraddoldeb rhagorol yn fewnol.
- Buom yn ymgysylltu â nifer o ymgyrchoedd a digwyddiadau megis Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth, Diwrnod Rhwydwaith Staff Cenedlaethol, Wythnos Cydraddoldeb GIG Cymru, Mis Pride, Mis Hanes Pobl Dduon.








- Fe wnaethom barhau i gyflwyno cyfres o sesiynau hyfforddi ar Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gan gynnwys Hyfforddiant Hunaniaeth Rhywedd; Cyflwyniad i Gydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant; Ymwybyddiaeth o Niwroamrywiaeth; Hyfforddiant ar Asesu Effaith ar Gydraddoldeb; Hyfforddiant Addasiadau Rhesymol.
- Ym mis Ebrill 2023, comisiynwyd Race Equality First i ddarparu hyfforddiant Ymwybyddiaeth Ddiwylliannol i'r Bwrdd.
- Mae'r Tîm EDI a Thîm y Gymraeg wedi cyd-hwyluso gweithdai sy'n edrych yn fanwl ar effaith EDI ac iaith ar Raglen yr Academi Arweinyddiaeth Nyrsio a Bydwreigiaeth.
- Mae gweithdy Arweinyddiaeth Gynhwysol wedi'i gyflwyno i'r Rhaglen Arwain Pobl.
- Rydym yn parhau i fonitro cydymffurfiaeth â hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol. Ym mis Chwefror 2023 cyrhaeddom 85.37% o ran ein cydymffurfiaeth â hyfforddiant cydraddoldeb gorfodol, gwelliant o'i gymharu â 82.10% yn 2021-2022.

- Ym mis Chwefror 2024, lansiodd y Bwrdd Iechyd ei gynllun 'cyfaill' Mentor Meddygol.Nod y Cynllun yw cefnogi Graddedigion Meddygol Rhyngwladol i wneud y newid i weithlu a bywyd yn y DU. Nod y rhaglen strwythuredig hon yw cysylltu aelodau newydd o'r GIG â chydweithwyr profiadol, gan feithrin amgylchedd croesawgar ar gyfer cyd-ddysgu a rhoi cymorth ar y cyd. Trwy ddarparu arweiniad personol gan y rhai sy'n gyfarwydd â chymhlethdodau system y GIG, nod y cynllun hwn yw hwyluso'r broses o gyflwyno IMGs newydd i'w rolau yn well.




- Rhoddwyd Grant Ehangu Cyfranogiad gan Addysg Iechyd Cymru i'r Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant ac Uned y Gymraeg er mwyn datblygu a chyflwyno prosiect sy'n ceisio cyflwyno disgyblion Blwyddyn 6 i fyd meddygaeth a gofal iechyd. Mae hyn yn cynnwys cyd-ddatblygu 'Pecyn Cymorth Gyrfa a Phrofiad sy'n Gysylltiedig â Gwaith Iechyd a Gofal Cymdeithasol' ar gyfer Athrawon sy'n cyd-fynd â Chwricwlwm Cymru ar gyfer dysgwyr 3 – 16 oed.
- Cynhaliwyd adolygiad o'n proses Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EQIA) gyfredol yn ystod y cyfnod adrodd er mwyn sicrhau bod asesiadau cadarn, tryloyw yn cael eu cynhyrchu a'u monitro ar gyfer pob datblygiad i wasanaeth a pholisi. Mae EQIA yn adnodd sy'n ein helpu i osod cydraddoldeb, amrywiaeth, cydlyniant ac integreiddio wrth wraidd popeth a wnawn a sicrhau bod ein strategaethau, ein polisïau, ein gwasanaethau a'n swyddogaethau yn gwneud yr hyn y bwriedir iddynt ei wneud a sicrhau eu bod ar gyfer pawb.
- Mewn ymateb i gostau byw cynyddol, mae Grŵp Lles Ariannol wedi'i ddatblygu i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu a churadu adnoddau cymorth a chyngor lles ariannol er mwyn cefnogi staff a chleifion i ymdopi â chaledi ariannol.

- Rydym wedi cymryd rhan mewn digwyddiadau cenedlaethol sy'n dathlu amrywiaeth ein pobl a'n cymunedau, mae hyn wedi cynnwys digwyddiadau Wythnos Cydraddoldeb GIG Cymru a Pride Cymru.




- Rydym wedi parhau i hyrwyddo ein rhwydweithiau staff er mwyn annog hyder yn niwylliant ein gweithle a helpu pobl i fod yn nhw eu hunain yn llwyr yn y gwaith.Rydym wedi datblygu fframwaith ar gyfer ein Rhwydweithiau Staff i sicrhau bod ganddynt Gylch Gorchwyl a Chynlluniau Gwaith Blynyddol cadarn. At hyn, yn ystod y cyfnod adrodd, bu i ni groesawu Noddwyr Gweithredol newydd ar gyfer pob un o'n Rhwydweithiau Staff er mwyn creu amlygrwydd ac arweinyddiaeth ar draws y sefydliad.






- Mae ein Gwasanaeth Lles Gweithwyr cynhwysfawr yn parhau i ddarparu cymorth clinigol arbenigol i staff, trwy gwnsela un i un a chymorth therapiwtig https://aneurinbevanwellbeing.co.uk/
- Yn dilyn adborth gan staff, rydym wedi adolygu ein proses Arfarnu Perfformiad ac Adolygu Datblygiad (PADR) er mwyn sicrhau bod staff yn cael y cyfle i drafod eu lles gyda'u rheolwr.
- Yn ystod y cyfnod adrodd, mae'r Bwrdd Iechyd wedi cyrraedd Lefel 2 o ran Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd y cynllun Hyderus o ran Anabledd. Mae gwaith ar y gweill i gyrraedd lefel 3.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth o absenoldeb rhiant a rennir, gweithio hyblyg a gweithio ystwyth ar draws ystod ehangach o rolau, gan ddatblygu Pecyn Cymorth Gweithio Ystwyth a lansio sawl cynllun peilot gweithio hyblyg.




- Mae 5 gweithle yn cymryd rhan yng Nghynllun Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru. Mae Cynllun Ardystio Cymhwysedd Diwylliannol Diverse Cymru yn arf datblygu gweithle sydd wedi ennill gwobrau. Ei nod yw helpu sefydliadau i roi arfer da yn y gweithle ar waith, gan sicrhau bod gwasanaethau'n deg ac yn gyfartal i bobl Ddu, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yng Nghymru.
- Mae cymorth menopos i staff wedi parhau yn ystod y cyfnod adrodd. Mae Caffis Menopos staff misol wedi cael eu hwyluso, yn ogystal â sesiynau hyfforddi Ymwybyddiaeth Menopos.




diverse cymru
Promoting equality for all
Hyrwyddo cydraddoldeb i bawb

- Mewn cydweithrediad â'n Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Person, byddwn yn parhau i ymgysylltu â'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaethau yr ydym yn eu darparu er mwyn sicrhau ein bod yn nodi unrhyw anghydraddoldebau posibl y mae gwahanol grwpiau'n eu hwynebu ac yna rhoi sylw a chymryd camau er mwyn mynd i'ri'r afael â hwy.
- Ym mis Medi 2023, cyhoeddwyd mai Tîm Gofal sy'n Canolbwyntio ar y Person y Bwrdd Iechyd oedd enillydd y Wobr Iechyd a Lles yng Ngwobrau Gwirfoddolwyr GAVO.






- Ym mis Mehefin 2023, cynhaliodd y Tîm Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person Gynhadledd Dementia Ranbarthol Gwent. Yn ystod y digwyddiad cafwyd sgyrsiau gan weithwyr gofal iechyd proffesiynol amrywiol gan gynnwys nyrsys, gwyddonwyr clinigol, dietegwyr, rheolwyr gwasanaeth a hyd yn oed Swyddog Cynhwysiant Rygbi'r Dreigiau, a chanolbwyntiodd y digwyddiad ar rannu gwybodaeth a gwella gofal dementia.





- Mae'r Bwrdd Iechyd yn bartner allweddol i Fwrdd Partneriaeth Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol De-ddwyrain Cymru (VAWDASV) ac wrth gyflawni Strategaeth Ranbarthol Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol Gwent 2018-2023.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i godi ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith staff o sut i roi gwybod am droseddau casineb a chefnogi cydweithwyr sy'n ddioddefwyr cam-drin/troseddau casineb. Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid aml-asiantaeth er mwyn codi ymwybyddiaeth ac ymateb yn gadarnhaol i ddioddefwyr troseddau casineb. Mae hyn wedi cynnwys rhannu gwybodaeth, adnoddau a digwyddiadau a chyfleoedd hyfforddi sydd ar y gweill.
- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi cadw ei ddyfarniadau Safon Iechyd Corfforaethol ar lefel Aur a Phlatinwm.
- Ym mis Gorffennaf 2023, cyflwynodd yr Arolwg Lles Staff gwestiynau yn ymwneud â Chydraddoldeb a Chynhwysiant, bydd hyn yn galluogi'r Bwrdd Iechyd i gael mewnwelediad i brofiadau ein gweithwyr a sefydlu rhaglenni sy'n meithrin gweithleoedd mwy diogel a mwy cynhwysol.
- Cymerodd y Bwrdd Iechyd ran yn y rhaglen Gwirfoddoli i Yrfa. Daeth cyllid y prosiect i ben ym mis Mehefin 2023, ond rydym wedi datblygu llwybr ac wedi sicrhau cyllid i dreialu swydd Gwirfoddolwr i Yrfa 'Cynorthwyydd Lles' fel 'prawf o gysyniad'. Byddwn yn gwerthuso hyn ac yn penderfynu sut y gellir prif ffrydio swydd mor arloesol i'n cynlluniau gweithlu.

CYRRAEDD Y NOD
CORPORATE HEALTH STANDARD
AUR • GOLD
Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

CYRRAEDD Y NOD
CORPORATE HEALTH STANDARD
PLATINWM • PLATINUM
Cymru Iach ar Waith
Healthy Working Wales

ffrind i mi
friend of mine

- Mae'r Bwrdd Iechyd wedi ymrwymo'n wirfoddol i gynnal Archwiliad Bwlch Cyflog rhwng Hiliau blynyddol. Bydd y set ddata hon yn cael ei choladu ochr yn ochr ag asesiadau demograffeg y gweithlu ac anghenion y boblogaeth leol i sefydlu sylfaen dystiolaeth a fydd yn llywio cynllun gweithredu'r Bwrdd Iechyd ymhellach wrth symud ymlaen.
- Mae'r Bwrdd Iechyd yn gweithio mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, i gynnal dadansoddiad o'n bwlch cyflog rhwng y rhywiau er mwyn llywio'r camau sy'n ofynnol o dan y 'dyletswydd cyflog cyfartal', er mwyn sicrhau ei effeithiolrwydd.
- Rydym yn parhau i fod yn aelod o raglen Hyrwyddwyr Amrywiaeth Stonewall.
- Mae traciwr Llwyth Achosion AD yn cael ei ddatblygu er mwyn monitro achosion sy'n ymwneud ag EDI. Bydd y data hwn yn darparu llinell sylfaen werthfawr o ran monitro cynnydd yn erbyn yr amcanion cydraddoldeb ac yn goleuo gwaith cynllunio ar gyfer y dyfodol.
- ·Wedi'i ariannu gan Gronfa Diwylliant, Treftadaeth a Chwaraeon Gwrth-hiliol Cymru, lansiodd y Bwrdd Iechyd arddangosfa'r Prosiect Seen ym mis Chwefror 2024. Mewn partneriaeth â Chyngor Hil Cymru, ac mewn cydweithrediad â staff, y gymuned leol ac ysgolion, nod y Prosiect Seen yw defnyddio celf fel cyfrwng i ysgogi sgwrs am gynrychiolaeth ar draws y Bwrdd Iechyd. Comisiynu artistiaid rhanbarthol Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig i anfarwoli cyfraniadau staff Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig, ddoe a heddiw, i ofal iechyd yng Ngwent.









# Sbotloau ar...

## Ymwybyddiaeth Amhariad ar y Golwg



Ym mis Rhagfyr 2023, croesawodd y Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant David Chaffey fel Swyddog Cynhwysiant Anabledd.

Mae David wedi gweithio i'r Bwrdd Iechyd am y 19 mlynedd diwethaf, fel rhan o'r Tîm Switsfwrdd ac mae'n aelod gweithgar o'r Grŵp Cynghori ar Anabledd. Mae David hefyd yn Gynrychiolydd Anabledd ac Aelodau Ifanc Unsain, yn ogystal ag aelod o Grŵp Partneriaeth Cymunedol Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru.

Elfen allweddol o rôl newydd David yw darparu Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amhariad ar y Golwg i staff y Bwrdd Iechyd.

Mae sesiwn ymwybyddiaeth ryngweithiol, ymarferol, Hyfforddiant Ymwybyddiaeth Amhariad ar y Golwg, yn dynwared lefelau gwahanol o amhariad ar y golwg ar gyfer cyfranogwyr gan amlygu'r egwyddorion sylfaenol y gellir eu cymhwyso'n rhesymol i'r cartref, i'r gwaith ac i fannau cyhoeddus er mwyn cefnogi dynodi llwybrau a hygyrchedd i bobl ag amhariad ar y golwg.

*"Sesiwn ardderchog! Mae wedi rhoi dealltwriaeth wirioneddol i mi o rai o'r heriau y mae pobl sydd ag amhariad ar eu golwg yn eu hwynebu, yn ogystal ag amlygu eu galluoedd"*
***- Swyddog AD.***

# Spotolau ar...

## Nyrsys a Addysgir yn Rhyngwladol





Mae Nyrsys a Addysgir yn Rhyngwladol (IENs) yn dod â chyfoeth o sgiliau, arbenigedd ac angerdd i rolau o fewn y GIG. Maent yn gwneud cyfraniad anhygoel i'r Bwrdd Iechyd.
Ym mis Mai 2023, trefnodd staff ddigwyddiad yn Ysbyty Brenhinol Gwent i ddathlu gwaith IENs.

Mae nyrsys yn aml yn gadael teuluoedd dramor am gyfnodau hir i weithio. Mae tua 500 o Nyrsys a Addysgir yn Rhyngwladol yn gweithio ar draws y Bwrdd Iechyd, ac mae'r mwyafrif yn dod o Ynysoedd y Philipinau ac India. Ond mae llawer hefyd yn dod o Affrica, Pacistan, Fiji Albania, a gwledydd eraill yr UE. Recriwtiwyd y nyrsys cyntaf dros 20 mlynedd yn ôl yn 2001 ac yna eto yn 2019.

*"Mae'r digwyddiad IENs cyntaf erioed yn brosiect arloesol a arweinir gan arweinwyr IEN ar draws y bwrdd iechyd. Maent yn angerddol dros ddarparu cymorth, hyrwyddo ymwybyddiaeth, a chreu gofod diogel ar gyfer ein gwerthoedd a rennir, dathlu diwylliant a thraddodiad mewn amgylchedd gwaith amrywiol fel yr un sydd gennym ni. Rydym yn cydnabod bod nyrsys sydd wedi'u hyfforddi'n rhyngwladol yn chwarae rhan hanfodol wrth gynnal gweithlu cadarn yn ein bwrdd iechyd drwy ddarparu ein gwasanaethau craidd i'n poblogaeth...Gyda llwyddiant ein digwyddiad IENs cyntaf erioed, edrychwn ymlaen at wneud hwn yn ddigwyddiad blynyddol yn y dyfodol gyda chefnogaeth ein harweinwyr Nyrsio. O waelod calon, rydym yn ddiolchgar i'r holl nyrsys, gweithwyr gofal iechyd proffesiynol ac arweinwyr nyrsio a ddangosodd eu cefnogaeth ac a ddathlodd gyda ni bob dydd o'n bywyd gwaith."* ***- Nyrs Arbenigol Ymchwil Clinigol, Regina Reyes***

# Spotolau ar...

## Hanes LHDTC+



Ym mis Chwefror 2022, mewn partneriaeth ag aelodau Gwent o rwydwaith y Cynghorau Balch, gwahoddodd y Bwrdd Iechyd gyhoedd Gwent i adolygu ac ychwanegu at Linell Amser LHDTC+ Gwent, a guradwyd gan yr Awdur a'r Hanesydd Norena Shopland.

Mae'r llinell amser yn un mewn cyfres o linellau amser sy'n cael eu cynhyrchu gan Hanes LHDT+ Cymru / Grŵp Ymchwil LHDTC+ Cymru, i dynnu sylw at adegau allweddol yn stori LHDTC+ Cymru.

Defnyddiodd Shopland ei chasgliad o ddeunydd hanesyddol Cymreig ar gyfeiriadedd rhywiol a hunaniaeth rhywedd i lywio'r llinell amser, yn ogystal â chofnodi straeon a gwybodaeth gan y rhai a gyfrannodd at Hanes LHDT+ Cymru / Grŵp Ymchwil LHDTC+ Cymru.

Ym mis Mehefin 2023, lansiwyd Llinell Amser Gwent yn Pride Caerffili, y dathliad Pride cyntaf erioed yn y sir.

Mae'r llinell amser yn parhau i fod yn ddogfen fyw ac rydym yn annog staff a'r cyhoedd yn barhaus i gyflwyno eu straeon er mwyn iddynt gael eu cynnwys ac edrychwn ymlaen at barhau i goladu hanes cyfoethog a disglair y gymuned LHDTC+ yng Ngwent.






# Spotolau ar...

## Llais y Gofalwyr



Yn ystod mis Rhagfyr 2023, cynhaliodd y Rhwydwaith Gofalwyr a'r Tîm Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant gyfres o sesiynau Galw Heibio i Ofalwyr Staff er mwyn eu galluogi i ymgysylltu ag aelodau staff sy'n ofalwyr di-dâl.

Ymgysylltodd 42 aelod o staff â'r sesiynau a chawsant eu cyfeirio er mwyn iddynt allu cefnogi eu hunain fel gofalwyr di-dâl neu allu darparu ar gyfer cleifion a theuluoedd yn eu rolau proffesiynol.

"Roeddwn i wir yn gwerthfawrogi cael y cyfle i siarad â'r tîm am ba gefnogaeth oedd ar gael i mi...dych chi ddim yn gwybod yr hyn nad ydych chi'n ei wybod, a doedd gen i ddim syniad beth oedd ar gael o ran gwasanaethau a chefnogaeth! Mae cael rhywun i wrando yn gwneud gwahaniaeth enfawr, oherwydd gall gofalu fod yn unig iawn" - **Aelod o Staff.**



# Spotolau ar...

## Dementia




Mae'r Tîm Gofal Dementia sy'n Canolbwyntio ar y Person wedi ymrwymo i gefnogi'r gweithlu i ddarparu ac ymwreiddio gofal dementia o'r safon uchaf i gleifion a gofalwyr.

- Mae gennym Gymdeithion Dementia Gwirfoddol sy'n ymgysylltu a chynorthwyo cleifion i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon
- Rydym wedi darparu Basgedi Gweithgareddau Ystyrlon i dros 42 o wardiau. Yn y basgedi hyn mae adnoddau megis paent, crefftau, Doliau Empathi a gwrthrychau synhwyraidd sy'n rhoi cysur, gan gynnwys Offer Technoleg Gynorthwyol.
- Mae gennym raglen hyfforddi sy'n agored i'r holl staff
- Mae gennym rwydwaith o Hyrwyddwyr Dementia ar draws y Bwrdd Iechyd
- Mae gennym Dechnoleg Gynorthwyol - RITAs, Hugs, Doliau i leddfu pryder ac unigrwydd
- Rydym yn cynnal Archwiliadau Amgylcheddau Cyfeillgar i Ddementia a Chynlluniau Gweithredu i newid y ffordd y mae ein wardiau yn edrych ac yn teimlo
- Mae gennym dîm ymroddedig sy'n cefnogi'r gwaith Dementia
- Mae gennym gyfeiriad e-bost pwrpasol sy'n rhoi mynediad uniongyrchol i'r tîm – abb.pccctdementia@wales.nhs.uk
- Mae gennym ddolen benodol ar gyfer Gwirfoddolwyr a Chymdeithion Dementia.

# Casgliad ac Edrych Tua'r Dyfodol



Dyma flwyddyn olaf ein Cynllun Cydraddoldeb Strategol presennol ac mae'n bwysig cydnabod, ers ei gyhoeddi yn 2020, bod y byd yr ydym yn byw ynddo wedi newid, ac felly hefyd y ffordd y mae ein GIG yn gweithredu.

Ochr yn ochr â'r symudiadau 'Black Lives Matter' a 'Me Too' a'r argyfwng costau byw, tynnodd bandemig byd-eang COVID-19 lawer mwy o sylw ar effaith anghydraddoldeb economaidd-gymdeithasol, anghydraddoldebau iechyd, hiliaeth ac ymddygiadau a chamau gwahaniaethol eraill ar ein staff GIG, ein gweithwyr allweddol yn ehangach, a'n cymunedau amrywiol. Er mwyn mynd i'r afael â'r canlyniadau gwahaniaethol hyn, mae angen inni symud y tu hwnt i gydymffurfiaeth gyfreithiol a defnyddio pŵer Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant i drawsnewid diwylliant ein sefydliad.

Yn ystod y cyfnod adrodd, rydym wedi cynnal gwaith ymgysylltu ac ymgynghori ar ddatblygu Cynllun diwygiedig a fydd yn mynd â ni o fis Ebrill 2024 i fis Mawrth 2028. Bydd ein Cynllun diwygiedig yn gosod ein gweledigaeth, ein nodau a'n amcanion o ran creu diwylliant teg, cyfiawn a chyfartal ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn ystod y pedair blynedd nesaf.

# Diolchiadau

**Hoffem gydnabod cyfraniadau pobl a weithiodd yn ddiflino ar y prosiectau a nodir yn yr adroddiad hwn:**

- Ein Rhwydweithiau Amrywiaeth Staff: Carers@ABUHB, Enable@ABUHB, Menopause@ABUHB, Neurodiversity@ABUHB, Pride@ABUHB, Voices@ABUHB.
- Ein Grwpiau Cynghori ar Hil a LHDTC+.
- Indu Jacob, Elizabeth Tonio a'r Caffi Nyrsys a Addysgir yn Rhyngwladol.
- Swyddog Cynhwysiant Anabledd, David Chaffey.
- Arweinydd Rhaglen Gofalwyr Strategol Rhanbarthol, Naheed Ashraf.
- Nyrs Arbenigol Ymchwil Clinigol, Regina Reyes.
- Tîm Addysg Feddygol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a'r Meddyg Ymgynghorol a'r Cyfarwyddwr Meddygol Cynorthwyol, Dr Jaideep Kitson.
- Tîm Gofal Sy'n Canolbwyntio ar y Person Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Timau Gweithlu a Datblygiad Sefydliadol Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan.
- Diverse Cymru.
- Race Council Cymru.
- Race Equality First.

## Diolchwn i chi am eich cefnogaeth barhaus o ran ein ymdrechion i gyfrannu at ein Hamcanion Cydraddoldeb.

Gwefan

https://abuhb.nhs.wales/

E-bost
ABB.EDI@wales.nhs.uk